DARLLEN

CD1

Enw cyntaf _____

Cyfenw _____

Ysgol _____

Dosbarth _____

Dyddiad geni ○○ ○○ ○○○○

Dyddiad y prawf ○○ 0 5 2 0 1 3

Cyfanswm y sgôr ○ (uchafswm 35)

Profion Darllen Cenedlaethol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwestiynau Ymarfer

Yn y llyfryn hwn, mae nifer o gwestiynau i chi eu hateb mewn ffyrdd gwahanol. Dyma rai cwestiynau enghreifftiol fydd yn dangos i chi sut i ateb y gwahanol gwestiynau sydd yn y prawf. Bydd y cyfarwyddiadau yn dweud wrthoch chi beth i'w wneud.
I ddechrau, darllenwch y darn darllen sydd yn y bocs isod.

Roedd Bryn a Sara wrthi'n pacio'u bagiau'n awyddus ar gyfer diwrnod olaf eu taith yn ymweld â chestyll gogledd Cymru – Castell y Bere amdani heddiw. Roedd Bryn wedi nodi ar y map pa gestyll roeddent wedi eu gweld bob dydd ac roedd Sara wedi tynnu lluniau a chofnodi'r planhigion oedd yn byw yno. Castell Dolbadarn oedd eu ffefryn, sef y castell cyntaf iddyn nhw ei weld, ac roedd yr olygfa o gastell Deganwy ar y trydydd diwrnod wedi bod yn anhygoel. Plygodd Bryn y mapiau'n ofalus a'u gosod rhwng y cwmpawd a'r blwch cymorth cyntaf tra oedd Sara yn gwthio ei het streipiog rhwng y camera a hen becyn o fisgedi meddal.

a Beth oedd ym mag Sara?
Ticiwch **3**.

Awgrym: Gwiriwch sawl ateb sydd angen ei dicio.

mapiau	☐	cwmpawd	☐
het	☐	bisgedi	☐
blwch cymorth cyntaf	☐	camera	☐

b Edrychwch ar y testun yn y bocs.
Tanlinellwch un gair sy'n dangos eu bod yn gyffrous am y trip.

Awgrym: Gwiriwch sawl gair sydd angen ei danlinellu.

Roedd Bryn a Sara wrthi'n pacio'u bagiau'n awyddus ar gyfer diwrnod olaf eu taith yn ymweld â chestyll gogledd Cymru – Castell y Bere amdani heddiw.

Awgrym: Os ydych yn gwneud camgymeriad ac angen newid eich ateb, ysgrifennwch eich ateb newydd o dan y bocs.

c **Dewiswch** a **chopïwch 2** beth roedd Bryn wedi'u pacio yn ei fag.

Awgrym: Dylech chi edrych eto ar y stori i ddod o hyd i'r atebion.

1. _____

2. _____

Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Roedd hi wedi bwrw glaw drwy'r wythnos.		
Roedd Bryn wedi nodi'r cestyll ar y map.		
Roedd Sara yn cario'r blwch cymorth cyntaf yn ei bag.		

Rhowch y digwyddiadau isod yn eu trefn, i ddangos beth wnaeth Bryn a Sara ar eu trip, gan eu rhifo o 1 i 4.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

edrych ar yr olygfa o gastell Deganwy ☐

mynd adref ☐

ymweld â chastell Dolbadarn 1

mwynhau Castell y Bere ☐

Tynnwch **3** llinell i gysylltu'r gair â'r disgrifiad cywir.

het	meddal
map	wedi'i blygu
bisgedi	streipiog

STOPIWCH

Arhoswch am ganiatâd cyn dechrau gweithio ar dudalen 4.

Mae tri darn i chi eu darllen a bydd angen i chi ateb cwestiynau ar bob un. Darllenwch y darn cyntaf yn ofalus cyn dechrau ateb y cwestiynau ar y darn. Yna darllenwch yr ail ddarn cyn ateb y cwestiynau ac yn y blaen.

Dylech chi weithio drwy'r llyfryn, gan stopio pan fydd rhywun yn dweud wrthoch am wneud hynny. Cewch gyfeirio at y testun pan fydd angen.

Mae gennych hyd at 60 munud i wneud y prawf.

Bws y Bore

Wrth gamu allan, gwelodd Erin ei bod yn ddiwrnod bendigedig: clir, ffres a heulog. Roedd wrth ei bodd gyda'r math yma o dywydd: tywydd medru gweld eich anadl. Roedd fel petai diwrnod fel hyn yn amlinellu ac yn goleuo pethau na fyddai rhywun yn cymryd sylw ohonynt fel arfer. Gwelodd hynny yn enfys fendigedig y dail ar y llwyni ar y ffordd i fyny'r dreif.

Pan gyrhaeddodd y giatiau ar waelod y dreif, gwelodd Erin fod y bws yn dynesu at yr arosfan. Roedd hwnnw'r ochr draw i'r ffordd ger y rhes o dai teras. Dechreuodd Erin redeg gan chwifio ei braich wrth weld y gyrrwr ar fin tynnu allan a mynd hebddi. Roedd yn rhaid iddi groesi'r ffordd a honno'n ffordd brysur. Gwelai res o wynebau, mewn rhyw ffurf ar wisg ysgol, yn rhythu arni drwy ffenest y bws. Roedd hi'n rhyfeddol i Erin sut roedd y disgyblion yn mynd yn hŷn wrth nesáu tuag at y cefn.

Gwelodd fwlch yn y traffig a chamodd yn hyderus i groesi'r ffordd gan wenu'n ddiolchgar ar Brian y gyrrwr bws rhadlon. Roedd wrthi'n ymbalfalu yn ei bag am ei phwrs – i arbed amser, fel roedd hi'n tybio – ond wrth iddi oedi am funud, ymddangosodd car ar y gorwel.

Roedd hi'n anodd dweud pwy ddychrynodd fwyaf: y gyrrwr ar ei ffôn symudol, ynteu Erin! Clodd brêcs y car a chanodd y gyrrwr ei gorn gan yrru gwefr o banig trwy gorff Erin wrth iddi hyrddio'i hun i ddiogelwch y palmant yr ochr draw.

Sgrialodd Erin ar y bws i osgoi rhegi mud y gyrrwr syn. Rhoddodd Erin y pres yn llaw gynnes Brian a winciodd yntau arni wrth iddi chwilio am sedd. Daeth o hyd i'r ddwy Siân a chuddio'i chywilydd yr un pryd. Roedd ugain pâr o lygaid yn gwenu'n wirion arni. Teimlodd bwniad cas yn ei hochr a chlywodd lais cyfarwydd Lucinda yn ei chyfarch.

"Hei, Erin, bydd rhaid i ti ofyn i Mami am bâr arall o *drainers* ..."

Gwelodd Erin ei hesgid wen yng nghanol y ffordd, a'r ceir yn gyrru drosti. Dychmygodd hi'n fflat fel crempog erbyn diwedd y dydd, fel anifail mewn cartŵn ar ôl i gar fynd drosto, a hithau'n gorfod ei phlicio oddi ar y tarmac a'i phrodio'n ôl i'w siâp gwreiddiol. Edrychodd ar ei bag a gweld fod y sip yn hollol agored a'r esgid arall yn swatio'n unig y tu mewn. Roedd Erin yn teimlo'n ddigon diflas fel roedd hi, ond yn union fel petai'n darllen sgript gyfarwydd, clywodd lais sbeitlyd Lucinda.

"Clywed bod y tŷ newydd yn neis, Erin. Ella fydd ganddyn nhw ddigon o bres i ti ga'l dillad newydd rŵan."

Chwarddodd y tair dafad a eisteddai'n ymyl Lucinda. Tybiai Erin eu bod fel tair gwrach yn ei dilyn i bobman: Sam, Angharad a Lisa. Cyfeirio roedd Lucinda at y ffaith na fyddai Erin yn gwneud llawer o ymdrech â'i dillad na'i gwisg. Er mai dim ond blwyddyn yn hŷn oedd hi, roedd Lucinda yn un o'r merched rheiny a gredai fod sgert fer a llond wyneb o golur yn ei gwneud yn fenywaidd a deniadol. Ac roedd ei chriw yn ddelwau o'r un mowld. Roedd gwrthgyferbyniad amlwg rhwng diwyg taclus Erin yn ei throwsus a'i hesgidiau fflat a Lucinda yn ei sodlau a'i chrys polo yn hongian allan o'i sgert yn llawn 'agwedd'. Doedd ganddi mo'r hyder na'r galon i'w hateb yn ôl.

1 Darllenwch y paragraff cyntaf eto.
Dewiswch a **chopïwch** y geiriau o'r darn sydd yn dangos mai bore oer oedd hi.

_____

1
1m

2 Ble roedd Erin yn dal y bws i'r ysgol?

Ticiwch **un**.

y tu allan i siop y pentref ☐
ar ochr arall y stryd i'r tŷ ☐
wrth yr eglwys ☐
yn yr orsaf fysiau ☐
mewn lôn gefn ☐

2
1m

3 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cywir	Anghywir
Roedd Erin yn aros wrth yr arosfan pan ddaeth y bws.		✓
Roedd Erin yn brysio am y bws.		
Roedd Erin yn codi llaw ar y gyrrwr.		
Doedd gyrrwr y bws ddim yn hoffi Erin.		
Plant bach oedd yn eistedd yng nghefn y bws.		
Roedd y plant ar y bws wedi'u gwisgo'n smart.		

3
2m

4 **Dewiswch** a **chopïwch un** gair o'r darn sydd yn disgrifio personoliaeth Brian.

_____

4
1m

5 Doedd gyrrwr y car ddim yn hapus am sut roedd Erin wedi croesi'r ffordd.
Dewiswch a **chopïwch 2** beth o'r darn sydd yn dangos hynny.

1. _____

2. _____

5
1m

CYFANSWM
6m

trosodd

6 Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn o 1 i 5.

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

Erin yn camu i'r ffordd	☐
Erin yn gweld y bws	☐
gyrrwr y car yn brecio'n sydyn	5
gyrrwr y car yn gweld Erin	☐
Erin yn chwilio am arian	☐

6
1m

7 *"Hei, Erin, bydd rhaid i ti ofyn i Mami am bâr arall o drainers ..."*

Pam dywedodd Lucinda y geiriau uchod wrth Erin?

Ticiwch **un**.

Roedd esgidiau Erin yn hen iawn.	☐
Roedd Lucinda eisiau benthyg esgidiau Erin.	☐
Dim ond un esgid oedd ar ôl ym mag Erin.	☐
Roedd Lucinda wedi dwyn esgidiau Erin.	☐

7
1m

8 Mae'r awdur yn disgrifio ffrindiau Lucinda fel *tair dafad*. Pam?

Ticiwch **un**.

oherwydd eu lleisiau croch	☐
oherwydd eu gwallt cyrliog	☐
oherwydd eu bod yn hyll iawn	☐
oherwydd eu bod yn dwp iawn	☐
oherwydd eu bod yn dilyn Lucinda	☐
oherwydd eu bod yn hoffi Lucinda	☐

8
1m

9 Tynnwch **4** llinell i ddangos ystyr y disgrifiadau hyn.

delwau o'r un mowld	ar ei phen ei hun
swatio'n unig	tebyg i'w gilydd
gwefr o banig	gwahanol iawn
gwrthgyferbyniad amlwg	crynu gan ofn

9

1m

trosodd

CYFANSWM

4m

Everest amdani!

Mae'r darn isod yn dod o lyfr teithio gan Llion Iwan - stori wir dau Gymro ifanc yn beicio ym mynyddoedd yr Himalayas, drwy wlad Tibet i Nepal. Ar y ffordd bu Llion a'i ffrind yn aros gyda phobl leol ac yn cael llawer o anturiaethau diddorol. Dyma hanes un digwyddiad:

Sŵn, nid llwch sy'n fy neffro y tro yma; corn cras *jeep* tu allan, ar fin cychwyn i fyny'r dyffryn gan gario tri aelod o glwb mynydda China sydd ar eu ffordd i'r prif wersyll gyda nwyddau. 'Oes, mae lle i ddau,' medd y gyrrwr gan edrych arnom wrth bwyso a mesur faint o ddoleri y gall eu rhyddhau o'n pocedi. 'Bydd rhaid i un eistedd yn y cefn ac rydym yn gadael ar unwaith.' Rwy'n baglu o amgylch yr ystafell yn hurt a hanner dall gan gwsg wrth geisio cofio popeth y bydd ei angen arna i. Ar un llaw rwy'n gyndyn o adael clydwch y caban ond mae tynfa Everest yn gryf. Gadawn ein beiciau a stwffio popeth i'n rycsacs. Cytunwn ar bris am y lifft, ond mae gwên lydan y gyrrwr, a gweld ein ffrind Lhakpa'n ysgwyd ei ben, yn awgrymu'n gryf ein bod wedi talu gormod.

Rwy'n taflu fy hun ar ben bocsys o gwrw a phetrol yng nghefn y jeep, a chynigia un o'r dringwyr gôt drwchus imi eistedd arni. Dim ond ar ôl cychwyn rwy'n sylweddoli fy mod wedi gadael y stôf, y bwyd a thipyn o'm dillad ar ôl. O fy mlaen mae taith oer a phoenus ar draws mul* o lwybr sy'n ein cicio i bob cyfeiriad. O gopa mynydd gwelwn yr haul yn machlud ac yn taro ar gadwyn yr Himalayas, a'r rheiny fel ewyn mewn storm a'r sêr yn wincian uwchben. Diffodda'r olygfa wrth i ni blymio'n ôl i ddyfroedd tywyll a garw'r dyffrynnoedd.

Mae'n hunllef o siwrnai, gyda'r gyrrwr yn gorfod reslo gyda'r olwyn lywio gydol y daith, ac mae sgrechian yr injan wrth ymlafnio i fyny llethrau ac yn gweiddi protest wrth ddisgyn yr ochr arall, yn brifo 'nghlustiau. Cleisir fy mreichiau gan gornel bocs ac mae'n amhosibl dweud mwy nag ambell air ar y tro. Ar ôl teirawr dyna gyrraedd y fynachlog, ond dal i ddringo a wnawn ni am chwarter awr arall cyn i'r injan ddiffodd yn ddirybudd gydag ochenaid o ryddhad.

Wrth ddilyn y criw tuag at adeilad concrit di-ffenestr mae'r oerfel yn fy mrathu'n galed. Llifa golau melyn o'r drws agored a'r tu mewn mae ystafell foel yn orlawn o *Sherpas** a dringwyr yn gorwedd driphlith draphlith. Hon ydi ystafell radio a phencadlys clwb dringo China. Chymer neb sylw ohonom ac mae'n amlwg mai lifft i'r gwersyll a dim mwy a brynodd ein doleri. Rwy'n teimlo braidd yn ffôl wrth sylweddoli nad oes pabell na stof gennym.

Dim dewis felly ond troi ar ein sawdl i chwilio am gysgod yn y tywyllwch a ninnau ar 5,300 metr – tua 17,500 troedfedd. Codwn wal isel o gerrig a rhoi'n rycsacs yn ei herbyn i geisio torri min y gwynt. Gosodwn ein matresi ar y llawr a chropian i'n sachau cysgu. Ciciaf fy hunan wrth feddwl am y dillad cynnes adawais ar ôl. Torra'r gwynt deifiol trwy'r rycsac a rhaid gwisgo pob cerpyn. Ond rwy'n gwybod fy mod am gael gweld Everest o fewn ychydig oriau.

mul* – asyn

*Sherpas** – pobl leol sy'n helpu'r dringwyr

Beth yw pwrpas y paragraff cyntaf sydd mewn print *italig*?

Ticiwch **un**.

egluro ystyr geiriau ☐
rhoi cefndir y darn ☐
mynegi barn ☐
cywiro'r darn ☐

1
1m

Beth roedd Llion wedi'i adael ar ôl?

Ticiwch y **2** ateb cywir.

matras a blancedi ☐
stof a bwyd ☐
ei rycsac ☐
mul sy'n cicio i bob cyfeiriad ☐
pabell a dillad ☐

2
1m

3 Pam roedd Lhakpa yn ysgwyd ei ben?

Ticiwch **un**.

oherwydd bod Llion wedi gadael cludwch y caban ☐
oherwydd bod pris y daith yn rhy uchel ☐
oherwydd bod Llion wedi baglu yn ei ystafell ☐
oherwydd bod y machlud ar ddod ☐

3
1m

Edrychwch ar baragraff dau a thri. Sut daith gafodd Llion a'i ffrind?
Dewiswch a **chopïwch 2** air o'r darn sydd yn disgrifio'r daith.

1. _____

2. _____

4
1m

Beth yw ystyr y geiriau canlynol?

mul o lwybr sy'n ein cicio i bob cyfeiriad*

Ticiwch **2**.

Roedd mul yn cicio'r *jeep*. ☐
Roedd y daith yn y *jeep* yn anghyfforddus. ☐
Roedd y ffordd yn llyfn iawn. ☐
Roedd y teithwyr yn cicio ei gilydd. ☐
Roedd mul yng nghanol y ffordd. ☐
Roedd y ffordd yn llawn tyllau. ☐

5
1m

trosodd

CYFANSWM
5m

Edrychwch ar y testun yn y bocs.
Tanlinellwch un gair sy'n dangos bod y daith yn un anodd a brawychus.

> Mae'n hunllef o siwrnai, gyda'r gyrrwr yn gorfod reslo gyda'r olwyn lywio gydol y daith, ac mae sgrechian yr injan wrth ymlafnio i fyny llethrau ac yn gweiddi protest wrth ddisgyn yr ochr arall …

6
1m

Tynnwch **4** llinell i gysylltu'r cwestiwn â'r ateb cywir bob tro.

Pwy sy'n rhoi côt i Llion eistedd arni?	tu ôl i wal gerrig
Beth oedd yn cleisio breichiau Llion?	llawr pencadlys y Clwb Dringo
Ble roedd Llion a'i ffrind yn gorfod cysgu?	un o'r dringwyr
Ar beth oedd y Sherpas yn gorwedd?	cornel bocs

7
1m

8 Rhowch y digwyddiadau hyn yn eu trefn o 1 i 5.

Mae rhif 5 wedi'i wneud yn barod i chi.

casglu offer ar frys gwyllt	
gweld mynachlog cyn cyrraedd diwedd y daith	5
clywed sŵn y *jeep* tu allan	
gweld haul y machlud yn taro ar gadwyn yr Himalayas	
talu'r gyrrwr am lifft	

8
1m

9 Yn y darn mae'r awdur yn disgrifio'r daith fel un anodd i'r *jeep* ac i'r teithwyr.

Ticiwch bob rhes i ddangos beth sy'n **anodd i'r jeep** neu **i'r teithwyr**.
Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Anodd i'r *jeep*	Anodd i'r teithwyr
reslo gyda'r olwyn lywio	✓	
sgrechian yr injan		
ymlafnio i fyny		
amhosibl dweud mwy nag ambell air ar y tro		
Cleisir fy mreichiau		
ddiffodd yn ddirybudd gydag ochenaid o ryddhad		

9
2m

10 Gorffennwch y tabl isod er mwyn dangos pa eitemau a **gofiodd** neu a **anghofiodd** Llion ar gyfer y daith.

Eitem	Cofio	Anghofio
sach gysgu		
stôf		
pabell		
matras		

10
1m

11 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

	Cywir	Anghywir
Roedd y daith wedi cymryd dros dair awr.		
Roedd pris y daith yn cynnwys gwely a brecwast.		
Roedd Llion wedi cario stof i bencadlys Clwb Dringo China.		
Roedd digon o fwyd ar gyfer y teithwyr ar ddiwedd y daith.		

11
2m

trosodd

CYFANSWM
8m

Trafod Llwybr Arfordir Cymru

Llwybr Arfordir Cymru Dydd Llun, 16eg o Ebrill 2012, 13.05	
Dwi'n croesawu Llwybr Arfordir newydd Cymru. Mae hi'n garreg filltir bwysig dros ben. Cymru fydd yr unig wlad yn y byd â llwybr sy'n dilyn pob cam o'r arfordir – 870 milltir i gyd.	**Ben J** Negeseuon: 291
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Llun, 16eg o Ebrill 2012, 13.12	
Be' sy mor wych am hynny, Ben? Mae'r llwybr wedi costio miliynau o bunnoedd ac wedi cymryd chwe blynedd i'w ddatblygu. Mi fedrai'r cynghorau a'r llywodraeth fod wedi gwario'r arian ar bethau defnyddiol – fel gwella cyflwr adeiladau ysgolion lleol yma. Dwi'n meddwl ei fod o'n warthus.	**Sara W** Negeseuon: 58
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Mawrth, 17eg o Ebrill 2012, 09.24	
Ond bydd y gwariant yn talu ar ei ganfed. Mae cerdded yn fusnes enfawr – edrych ar Lwybrau Arfordir Sir Benfro ac Ynys Môn. Mae miloedd o gerddwyr yn dod i mewn i gefn gwlad, yn hala arian ac yn rhoi hwb i'r economi. Twristiaeth fydd yn achub cefn gwlad Cymru. Pa ddiwydiant arall sy gyda ni?	**Ben J** Negeseuon: 292
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Iau, 19eg o Ebrill 2012, 10.04	
Ond ai llwybr arfordir go iawn ydy hwn? Maen nhw'n dweud bod llawer o berchnogion wedi gwrthod gadael i'r llwybr fynd drwy eu tir. Felly mae tua 20% o'r llwybr ar ffyrdd, a darnau ymhell o olwg y môr! Ddaw neb yma, siŵr iawn. Gwastraff arian llwyr ydy o.	**Sara W** Negeseuon: 59
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Iau, 19eg o Ebrill 2012, 10.47	
Dwi'n anghytuno, Sara. Mae'r *Lonely Planet Guide* wedi rhoi arfordir Cymru ar frig eu rhestr o fannau i ymweld â nhw yn 2012. Bydd busnesau bach cefn gwlad Cymru'n elwa – gwestai, bwytai, llefydd gwely a brecwast, tafarndai, meysydd pebyll ...	**Gwenan** Negeseuon: 38
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Iau, 19eg o Ebrill 2012, 11.14	
Mae cerddwyr yn dod â'u bwyd eu hunain, yn codi eu pebyll ar dir fferm heb ganiatâd, felly does dim cyfraniad i'r economi. Rhywbeth i bobl o bell ydy'r llwybr, nid rhywbeth i ni, y Cymry.	**Sara W** Negeseuon: 60
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Sul, 22ain o Ebrill 2012, 18.35	
Nage, mae'r llwybr yn bwysig o ran iechyd pobl Cymru hefyd. Wedi'r cyfan, mae problem gordewdra gyda ni yma. Fydd dim esgus - yn lle eistedd o flaen y teledu a'r cyfrifiadur, dylai'r Cymry fynd ma's i gerdded y llwybr.	**Ben J** Negeseuon: 293
Re: Llwybr Arfordir Cymru Dydd Sul, 22ain o Ebrill 2012, 21.50	
Clywch! Clywch!	**Bob** Negeseuon: 168

1 Pwy sydd wedi talu am lwybr yr arfordir?

Ticiwch **un**.

- ysgolion lleol ☐
- Croeso Cymru ☐
- busnesau cefn gwlad ☐
- y cynghorau a'r llywodraeth ☐

1 1m

2 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio barn Sara W orau?

Ticiwch **un**.

- yn annog ☐
- yn erbyn ☐
- o blaid ☐
- yn derbyn ☐

2 1m

3 Pam mae Ben J yn dweud: ... *bydd y gwariant yn* ***talu ar ei ganfed***?

Ticiwch **un**.

- Ni fydd yn bosibl gwneud arian o'r llwybr. ☐
- Bydd yn bosibl gwneud ychydig bach iawn o arian o'r llwybr. ☐
- Bydd llawer iawn o arian yn cael ei golli oherwydd y llwybr. ☐
- Bydd yn bosibl gwneud llawer iawn o arian o'r llwybr. ☐
- Bydd y llwybr yn costio can punt. ☐

3 1m

4 Mae Ben J yn meddwl bod y llwybr yn beth da. Pam?

Ticiwch **2**.

- Dydy'r llwybr ddim wedi costio llawer o arian. ☐
- Bydd y llwybr yn hawdd ei gerdded. ☐
- Bydd y llwybr yn dod â rhagor o ymwelwyr i Gymru. ☐
- Bydd yr ymwelwyr yn gwario arian yma. ☐
- Fydd dim ymwelwyr ar y llwybr yn yr haf. ☐
- Bydd ychydig bach o ymwelwyr yn dod i Gymru. ☐

4 1m

trosodd

CYFANSWM 4m

5 Rhowch y pwyntiau hyn yn y drefn maen nhw'n dod yn y testun, o 1 i 6.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

Dydy cerddwyr ddim yn cyfrannu i'r economi.	☐
Mae gordewdra yn broblem yng Nghymru.	☐
Cymru yw'r unig wlad yn y byd sydd â llwybr fel hwn.	1
Mae'r llwybr wedi costio llawer o arian.	☐
Mae arfordir Cymru wedi cael sylw mewn llyfr i ymwelwyr.	☐
Mae twristiaeth yn bwysig i Gymru.	☐

5
1m

6 Pam mae Sara W yn meddwl na fydd neb yn dod i gerdded y llwybr?

Ticiwch **un**.

Does neb eisiau cerdded o amgylch Cymru i gyd.	☐
Dim ond wyth deg y cant o'r llwybr sydd ar yr arfordir.	☐
Mae wyth deg y cant o'r llwybr ar ffyrdd.	☐
Mae llwybr yr arfordir yn rhy fyr.	☐
Dydy'r môr ddim i'w weld o gwbl o'r llwybr.	☐

6
1m

7 Rhowch **un** tic ym mhob llinell i ddangos pwy sy'n credu beth am Lwybr Arfordir Cymru.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Ben J	Sara W	Gwenan
Dim ond Cymru fydd â llwybr o gwmpas yr arfordir.	✓		
Mae pethau gwell i wario arian arnyn nhw.			
Dydy cerddwyr ddim yn helpu economi Cymru.			
Mae'r llwybr yn cael sylw mewn llyfr pwysig i ymwelwyr.			
Bydd y llwybr yn helpu pobl Cymru i golli pwysau.			
Dim ond twristiaeth sy'n creu arian yng nghefn gwlad Cymru.			
Mae llawer o berchnogion wedi gwrthod gadael i'r llwybr fynd drwy eu tir.			

7
2m

8 Pam mae Sara W yn dweud na fydd y llwybr yn helpu'r economi?

Ticiwch **2**.

- Mae'r cerddwyr yn hoffi aros mewn gwestai drud. ☐
- Dydy'r cerddwyr ddim yn prynu bwyd yn lleol. ☐
- Mae'r cerddwyr yn aros mewn gwely a brecwast. ☐
- Mae'r cerddwyr yn aros ar gaeau ffermwyr. ☐
- Dydy'r cerddwyr ddim yn aros yn hir iawn. ☐
- Mae'r cerddwyr yn bwyta mewn bwytai lleol. ☐

8
1m

Mae'r Lonely Planet Guide wedi rhoi arfordir Cymru ar frig eu rhestr o fannau i ymweld â nhw yn 2012.

Beth yw ystyr *ar frig*?

Ticiwch **un**.

- ar ben ☐
- ar waelod ☐
- yng nghanol ☐
- ar ddiwedd ☐

9
1m

10 Ticiwch **cywir** neu **anghywir** ar gyfer pob brawddeg.

Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

	Cywir	Anghywir
Mae llwybr yr arfordir wedi cymryd chwe blynedd i'w ddatblygu.	✓	
Mae gan sawl gwlad lwybr sy'n dilyn yr arfordir.		
Mae'r llwybr wedi costio miliynau o bunnoedd.		
Mae rhan o'r llwybr ar ffyrdd.		
Rydych chi'n gallu gweld y môr o'r llwybr i gyd.		
Roedd pob perchennog yn hapus bod y llwybr yn mynd drwy eu tir.		

10
2m

Diwedd y prawf. Gwiriwch eich gwaith.

CYFANSWM
8m

Diolchiadau

Lluniau o fynydd Everest gan Alice Ainsworth.

'Bws y Bore' addaswyd o'r nofel *Codi Bwganod* gan Rhiannon Wyn, Y Lolfa, 2008.

'Everest amdani!' addaswyd o *O Afallon i Shangri La* gan Llion Iwan, Gomer, 2001.

Y mae'r testunau hyn wedi eu cynnwys yn y papur prawf hwn at ddibenion yr arholiad yn unig yn unol ag Adran 32(3) y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988. Nid oes cais wedi ei wneud na hawl wedi ei roi ar gyfer unrhyw hawlfraint arall.

© Hawlfraint y Goron 2013